**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf.**

**23 Mehefin 2023**

09:30 – 1300

Lleoliad: Tŷ San Padrig, Hybrid

---

**Yn bresennol**

James Price (Cadeirydd), Peter Strachan, Heather Clash, Marie Daly, ac Alexia Course.

Hefyd yn bresennol: Martyn Brennan (Eitem 5), Ryan Williams (Eitem 5), Stephanie Raymond (Eitemau 6-8), Lewis Brencher (Eitemau 6-13), Ross Whiting (Ysgrifennydd).

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Anfonodd Jan Chaudhry Van der Velde ei ymddiheuriadau. Cytunwyd i gysylltu ag aelodau'r bwrdd i weld gwrthdaro mewn dyddiaduron ac o bosibl i newid cyfarfodydd os oes angen **[Cam gweithredu - Ysgrifennydd].**

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiannau**

Datganodd Peter Strachan fuddiant yn eitem 9, fel cynrychiolydd cwmni enwebedig Serco. Cytunwyd y byddai'n gadael y cyfarfod ar gyfer Eitem 9.

**1d. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 26 Mai 2023, a chytunwyd ar fân newidiadau. Nodwyd a diwygiwyd y Log Camau Gweithredu diweddaraf.

**2. Sylw i ddiogelwch**

Nododd y Bwrdd y foment ddiogelwch yn y pecyn ar bwnc adar sy'n nythu.

**3. Sylw i Gwsmeriaid**

Nododd y Bwrdd y foment i gwsmeriaid yn y pecyn ar bwnc ymgyrch diogelwch cyhoeddus OLE, a chanfyddiadau papur RSSB diweddar ar effaith ymddygiad cwsmeriaid ar ddiogelwch, ac ymgyrch addysg bosibl.

[redacted]

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau – Cyfnod 02 (Marie Daly)**
Derbyniodd a nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau a oedd wedi'i gynnwys ym mhecyn y cyfarfod a rhoddodd sylw penodol i'r materion a'r camau gweithredu canlynol:

- Gwasanaethau bws yn lle trenau – Lee Robinson gyda chefnogaeth Marie Daly a James Price i ddysgu o'r ddarpariaeth gwasanaethau bws yn lle trenau a'i gynnwys yn y gwaith ehangach ar fasnachfreinio bysiau **[Cam gweithredu – Lee Robinson, Marie Daly, James Price].**
- Rheolwyr llwybr y Gororau i hyrwyddo a gwella ansawdd y gwasanaeth – Jan Chaudhry-Van der Velde a Piers Croft i gyflwyno yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Rheilffyrdd TrC ar reoli llwybrau a materion ymarferol, gan gynnwys strategaeth glir a chynllun gweithredu – **[Cam gweithredu - Jan Chaudhry-Van der Velde, Piers Croft].**
- Paratoi ar gyfer tywydd cynnes dros yr haf – gan gynnwys cynllunio darpariaeth gwasanaethau dŵr ar y trên a chynllun parodrwydd yr haf, briffio staff, a chynllun cwsmeriaid 10 pwynt gan gynnwys darparu dŵr mewn gorsafoedd.
- [redacted]
- [redacted]

Nododd y Bwrdd ymddeoliad arfaethedig Martyn Brennan a diolchodd iddo am ei amser, ei werth a'i ymdrechion yn Trafnidiaeth Cymru a'r diwydiant rheilffyrdd drwy gydol ei yrfa.

**5.1 Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Strategol**
Nododd y Bwrdd yr adroddiad DPA Strategol yn y pecyn cyfarfod.

**5.2 Adroddiad Sicrhau Diogelwch**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad Sicrhau Diogelwch ym mhecyn y cyfarfod. [redacted]

**5.3 Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd**
Nododd y Bwrdd y Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd ym mhecyn y cyfarfod.

**6. Diweddariad masnachol**
*Ymunodd Stephanie Raymond a Lewis Brencher â'r cyfarfod.*

Derbyniodd a nododd y Bwrdd gyflwyniad diweddaru ar y strategaeth fasnachol P02 sydd wedi'i chynnwys ym mhecyn y cyfarfod.

[redacted]

**7. Adolygiad ariannol**
Derbyniodd a nododd y Bwrdd gyflwyniad diweddaru ar Adolygiad Ariannol Cyfnodol P02 sydd wedi'i chynnwys ym mhecyn y cyfarfod.

[redacted]

- [redacted]
- [redacted]
- [redacted]

**8. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Rheilffyrdd TrC Cyf**
Cafodd y Bwrdd gyflwyniad diweddaru ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Rheilffyrdd TrC Cyf, [redacted]

Cytunodd y Bwrdd i ddirprwyo awdurdod i Jan Chaudhry-Van der Velde i gymeradwyo fersiwn derfynol yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol erbyn 29 Mehefin 2023, a chytunwyd y byddai'r fersiwn bresennol yn cael ei dosbarthu i'r aelodau ar gyfer sylwadau terfynol cyn 29 Mehefin 2023 **[Cam gweithredu - Ysgrifennydd].**

*Gadawodd Stephanie Raymond y cyfarfod.*

**9. Cynrychiolydd a enwebir gan y cwmni ar y Bwrdd Cynlluniau a Gwasanaethau (SSB) a Chynghorau Cynllun**
*Gadawodd Peter Strachan y cyfarfod oherwydd gwrthdaro posibl rhwng buddiannau.*

Ystyriodd y Bwrdd bapur crynodeb cynrychioliadol y Bwrdd Cynlluniau a Gwasanaethau a'r Cynghorau Cynllun a'r cytundeb penodi cynrychioladol, gan gynnwys unrhyw risgiau neu rwymedigaethau, a nodwyd nad oes dim yn bodoli. Ystyriodd y Bwrdd fanteision cynrychiolydd.

Cytunodd y Bwrdd i'r cynnig, ac y byddai Alexia Course yn llofnodi yn dilyn y cyfarfod **[Cam gweithredu – Alexia Course]** ac y byddai James Price yn mynd ar Fwrdd RDG **[Cam Gweithredu – Ysgrifennydd].**

**10. Strategaeth Symleiddio Prisiau Tocynnau**
*Ailymunodd Peter Strachan â'r cyfarfod.*

[redacted]

Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo a chefnogi'r dull gweithredu a'r strategaeth.

**11. Diogelu Refeniw**
Ystyriodd y Bwrdd gynnwys y papur diogelu refeniw a oedd wedi'i gynnwys ym mhecyn y cyfarfod. Yn dilyn trafodaeth ar deithio heb docyn a rheoli giatiau, cytunodd y Bwrdd i nodi'r papur a chymeradwyo datblygu diweddariad ar y ddogfen strategaeth diogelu refeniw.

**12. Diweddariad Marchnata**
Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar farchnata yn y pecyn cyfarfod a nododd y gweithgareddau cadarnhaol a oedd wedi digwydd.

[redacted]

[redacted]

**13. Unrhyw Fater Arall**
Ni chodwyd unrhyw faterion pellach.

Daeth y cyfarfod i ben a diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.